*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 156(4)(j) a (ja) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ac adran 22(4)(b) o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# PLEIDIAU GWLEIDYDDOL, CYMRU

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

# SENEDD CYMRU

## Rheoliadau Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Eithriadau ac Amrywio Terfynau Gwariant Ymgyrch) (Cymru) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlenni 8, 8A a 9 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("Deddf 2000").

Mae rheoliad 1 yn gwneud darpariaeth gyffredinol yn ymwneud â'r Rheoliadau gan gynnwys arbedion i sicrhau nad yw'r Rheoliadau ond yn berthnasol i etholiadau cyffredinol i'r Senedd, y cynhelir y pôl ar eu cyfer ar 7 Ebrill 2026 neu ar ôl hynny. Yn rhinwedd adran 24 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ("Deddf 2024"), byddai unrhyw etholiad cyffredinol y Senedd a gynhaliwyd cyn y dyddiad hwnnw yn cael ei gynnal o dan y gyfraith fel yr oedd cyn i Ddeddf 2024 ddod i rym, ac felly dylai'r ddarpariaeth bresennol sy'n ymwneud ag eithriadau a therfynau gwariant ymgyrch fod yn gymwys i etholiadau o'r fath hefyd.

Mae rheoliad 2 yn diffinio “Deddf 2000” at ddibenion y Rheoliadau.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth i eithrio treuliau diogelwch (a ddiffinnir fel treuliau rhesymol yr eir iddynt y gellir eu priodoli’n rhesymol i amddiffyn personau neu eiddo yn unol â pharagraff 2(ea) o Atodlen 8 a pharagraff 2(1)(f) o Atodlen 8A i Ddeddf 2000) rhag cwmpas treuliau cymhwysol yn Atodlenni 8 ac 8A i Ddeddf 2000.

Mae rheoliad 3 yn rhoi effaith i argymhelliad gan y Comisiwn Etholiadol yn unol â pharagraff 4(2)(a) o Atodlen 8 a pharagraff 4(2)(a) o Atodlen 8A i Ddeddf 2000.

Mae rheoliad 4 yn amrywio’r terfynau mewn perthynas â gwariant ymgyrch yr eir iddo gan neu ar ran plaid gofrestredig sy’n ymladd un neu ragor o etholaethau mewn etholiad cyffredinol cyffredin neu eithriadol i Senedd Cymru (“y Senedd”). Mae’r Rheoliadau hyn yn gosod terfynau newydd o ganlyniad i ddiwygio’r Senedd y rhoddwyd effaith iddo gan Ddeddf 2024. Mae’r terfynau gwariant newydd yr eir iddynt gan neu ar ran plaid gofrestredig ym mhob etholaeth a ymleddir yn cael eu cyfrifo drwy gyfeirio at nifer y personau sy’n dal wedi eu henwebu gan y blaid fel ymgeisydd ar gyfer yr etholaeth. At y diben hwn, mae person yn dal wedi ei enwebu gan y blaid fel ymgeisydd i fod yn Aelod o’r Senedd ar gyfer yr etholaeth os dangosir y person, mewn datganiad o bleidiau a phersonau a enwebwyd a gyhoeddir gan y swyddog canlyniadau ar gyfer yr etholaeth yn unol â gorchymyn a wnaed o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel ymgeisydd sydd wedi ei enwebu ac sy’n dal wedi ei enwebu fel un o ymgeiswyr y blaid. Mae hefyd yn hepgor cyfeiriadau ym mharagraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf 2000 at ymgeiswyr sy’n sefyll yn enw plaid ac un neu ragor o bleidiau cofrestredig eraill gan nad yw hyn yn bosibl o dan y system etholiadol newydd. Mae rheoliad 4 hefyd yn hepgor diwygiadau cynharach i baragraff 6(2) o Atodlen 9 i Ddeddf 2000 gan fod y ddarpariaeth hon wedi ei disodli’n llwyr.

Gwneir rheoliad 4 gyda chydsyniad y Comisiwn Etholiadol yn unol ag adran 21(4) o Ddeddf 2024.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Etholiadau, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 156(4)(j) a (ja) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ac adran 22(4)(b) o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# PLEIDIAU GWLEIDYDDOL, CYMRU

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

# SENEDD CYMRU

Rheoliadau Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Eithriadau ac Amrywio Terfynau Gwariant Ymgyrch) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | 4 *Gorffennaf 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 4 o Atodlen 8 a pharagraff 4 o Atodlen 8A i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**1**) ("Deddf 2000") ac adrannau 21(1), (2)(a) a (b) a (3)(b) o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024(**2**) ("Deddf 2024"), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

(**1**) 2000 p. 41. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o fewn cymhwysedd datganoledig, i Weinidogion Cymru gan erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644) a pharagraff 4 o Atodlen 1 iddo. Mewnosodwyd Atodlen 8A gan Atodlen 3 i Ddeddf Tryloywder Lobïo, Ymgyrchu Di-Blaid a Gweinyddu Undebau Llafur 2014 (p. 4).

(**2**) 2024 dsc 4.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi effaith i argymhelliad gan y Comisiwn Etholiadol yn unol â pharagraff 4(2)(a) o Atodlen 8 a pharagraff 4(2)(a) o Atodlen 8A i Ddeddf 2000.Gwneir y Rheoliadau hyn gyda chydsyniad y Comisiwn Etholiadol yn unol ag adran 21(4) o Ddeddf 2024.

Yn unol ag adran 156(4)(j) a (ja) o Ddeddf 2000(**1**) ac adran 22(4)(b) o Ddeddf 2024, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi, dod i rym a darpariaeth arbed

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Eithriadau ac Amrywio Terfynau Gwariant Ymgyrch) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 4 Gorffennaf 2025.

(3) Er bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym o dan baragraff (2), nid ydynt yn cael effaith mewn perthynas ag etholiad cyffredinol cyffredin neu eithriadol i Senedd Cymru y cynhelir y pôl ar ei gyfer ar 6 Ebrill 2026 neu cyn hynny.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 2000" yw Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

### Eithriad diogelwch mewn cysylltiad â threuliau cymhwysol ar gyfer pleidiau cofrestredig a thrydydd partïon cydnabyddedig

**3.**—(1) Mae paragraff 2(1)(ea) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000(**2**) (gwariant ymgyrch: treuliau cymhwysol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ar ôl "paragraph 3," mewnosoder "6,";

(b) ar ôl "parliamentary general elections" mewnosoder ", general elections to Senedd Cymru,".

(2) Mae paragraff 2(1)(f) o Atodlen 8A i Ddeddf

(**1**) Mewnosodwyd adran 156(4)(ja) gan adran 26(13) o Ddeddf Tryloywder Lobïo, Ymgyrchu Di-blaid a Gweinyddu Undebau Llafur 2014 (p. 4).

(**2**) Mewnosodwyd paragraff 2(1)(ea) o Atodlen 8 gan O.S. 2024/428.

2000(**1**) (gwariant a reolir: treuliau cymhwysol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ar ôl “paragraph 3,” mewnosoder “6,”;

(b) ar ôl “parliamentary general elections” mewnosoder “, general elections to Senedd Cymru,”.

**Amrywio terfynau gwariant ymgyrch pleidiau cofrestredig**

**4.**—(1) Ym mharagraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf 2000 (etholiadau cyffredinol i Senedd Cymru)—

(a) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

“(2) The limit applying to campaign expenditure which is incurred by or on behalf of a registered party in the relevant period in Wales is, for each constituency contested by the party, as follows—

(a) where only 1 person stands nominated by the party as a candidate to be a Member of the Senedd for the constituency, the limit is £52,500;

(b) where only 2 people stand nominated by the party as candidates to be Members of the Senedd for the constituency, the limit is £56,000;

(c) where only 3 people stand nominated by the party as candidates to be Members of the Senedd for the constituency, the limit is £59,500;

(d) where only 4 people stand nominated by the party as candidates to be Members of the Senedd for the constituency, the limit is £63,000;

(e) where only 5 people stand nominated by the party as candidates to be Members of the Senedd for the constituency, the limit is £66,500;

(f) where 6, 7 or 8 people stand nominated by the party as candidates to be Members of the Senedd for the constituency, the limit is £70,000.

(2ZA) For the purposes of sub-paragraph (2), a person stands nominated by a party as a candidate to be a Member of the Senedd for the constituency if the person is shown, in a statement of parties and persons nominated published by the returning officer for the constituency in accordance with an order made under section 13 of the Government of Wales

(**1**) Mewnosodwyd paragraff 2(1)(f) o Atodlen 8A gan O.S. 2024/428.

Act 2006, as a candidate who has been and stands nominated as a candidate of the party.”;

(b) hepgorer is-baragraffau (2A) a (2B).

(2) Hepgorer adran 10(10)(h)(ii) o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (diwygiadau i Ddeddf 2000).

(3) Hepgorer adran 64(3) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006([1]) (gwariant ymgyrch: sefyll dros fwy nag un blaid mewn etholiadau cyffredin i Senedd Cymru).

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) 2006 (p. 22).